COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MERCHER, 22 MAI 2019

AELODAU

Y Cynghorydd Robert Walsh, Maer
Y Cynghorydd Ronnie Prince, Dirprwy Maer

Y Cynghorydd		Bryan Apsley	Y Cynghorydd		Paul Jones
"		Andrew Atkinson	"		David Kelly
"		William Baldwin	"		Malcolm C King OBE
"		Trevor Bates	"		Geoff Lowe
"		Sonia Benbow-Jones	"		David Maddocks
"		David A Bithell	"		Tina Mannering
"		I David Bithell, MBE	"		John McCusker
"		Paul Blackwell	"		Joan Lowe
"		Brian Cameron	"		M G Morris
"		Krista Childs	"		Beverley Parry-Jones
"		Dana Davies	"		Paul Pemberton
"		Mike Davies	"	*	John Phillips
"		Michael Dixon	"		John Pritchard
"		T Alan Edwards	"		Mark Pritchard
"		Terry Evans	"		Paul Roberts
"		Russell Gilmartin	"		Rondo Roberts
"		David J Griffiths	"		Graham Rogers
"		Carrie Harper	"	*	Paul Rogers
"		Frank Hemmings	"		J R Skelland
"		Kevin Hughes	"		Debbie Wallice
"	*	R Alun Jenkins	"		Barrie Warburton
"		Adrienne Jeorrett	"		Andy Williams
"		Gwenfair Jones	"		Nigel Williams
"		Hugh Jones	"		Derek Wright
"		Marc Jones	"		Phil Wynn

*Yn absennol

7 ATEB UNRHYW GWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD NEU DDERBYN DATGANIADAU CYHOEDDUS NEU DDEISEBAU DAN REOLAU SEFYDLOG 10 A 11 O REOLAU SEFYDLOG Y CYNGOR

Dywedodd y Maer na chafwyd unrhyw gwestiwn, datganiad na deiseb gyhoeddus.

8 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr R Alun Jenkins, John C Phillips a Paul Rogers.

9 CYHOEDDIADAU'R MAER

Croesawodd y Maer bawb i'w gyfarfod Cyngor cyntaf yn ei rôl newydd fel Maer a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at y deuddeg mis nesaf.

Dywedodd y Maer wrth Aelodau y byddai ei ymweliad dinesig â'r eglwys yn digwydd ar 7 Gorffennaf yn Eglwys San Silyn ac y byddai gwahoddiadau ffurfiol yn dilyn maes o law.

Diolchodd y Maer hefyd ar ran y Cyngor, i'r Cynghorydd Andy Williams a'i wraig Bev, am eu cyfnod fel Maer a Maeres Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan nodi y byddai'n anodd gwneud gwaith mor dda ag y gwnaethant hwy.

10 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD : Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y Cyngor Bwrdeistref Sirol a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

11 COFNODION Y BWRDD GWEITHREDOL A'R PWYLLGORAU

Ni chodwyd unrhyw faterion gan Aelodau mewn perthynas â Chofnodion cyfarfodydd sydd wedi'u cynnal ers cyfarfod cyffredin diwethaf y Cyngor, y mae'r Cofnodion wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

12 ETHOL ARWEINYDD / CADEIRYDD Y BWRDD GWEITHREDOL

PENDERFYNWYD : Penodi'r Cynghorydd Mark Pritchard yn Arweinydd y Cyngor/Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Rheswm dros y penderfyniad

Penodi Arweinydd y Cyngor/Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

13 PENODI DIRPRWY ARWEINYDD / IS-GADEIRYDD Y BWRDD GWEITHREDOL

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd Hugh Jones yn Ddirprwy Arweinydd/Is-gadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Rheswm dros y penderfyniad

Penodi Dirprwy Arweinydd y Cyngor/Is-gadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

14 PENODI AELODAU I'R BWRDD GWEITHREDOL, PWYLLGORAU, PWYLLGORAU CRAFFU A PHANELI AMRYWIOL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad COGC/18/19 oedd yn caniatáu Aelodau i ystyried penodiadau i'r Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau, Pwyllgorau Craffu a Phaneli amrywiol a sefydlwyd gan y Cyngor fel rhan o'i Gyfansoddiad.

PENDERFYNWYD -

(i) Penodi Aelodau i'r Bwrdd Gweithredol fel y nodir yn y ddogfen a gyflwynwyd, sef:

Y Cynghorwyr Andrew Atkinson, William Baldwin, David A Bithell, Terry Evans, David Griffiths, David Kelly, Joan Lowe, Phil Wynn.

(ii) Cytuno mewn egwyddor ar feintiau a chydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau sefydlog a'r pwyllgorau craffu fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad (COGC/18/19).

(iii)Y bydd Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Aelodau presennol y pwyllgorau, paneli a grwpiau yn parhau tra byddwn yn aros i roi ystyriaeth bellach i'r penodiadau mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhelir ddydd Mercher 5 Mehefin 2019 am 4.00pm.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Penodi Aelodau i'r Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau Sefydlog, Pwyllgorau Craffu a'r amrywiol Baneli a sefydlwyd gan y Cyngor fel rhan o'i Gyfansoddiad, a phenodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion perthnasol.

15 CYNLLYN Y CYNGOR 2019-22

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Polisi, Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu adroddiad CE/03/19 er mwyn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer Cynllun arfaethedig y Cyngor 2019-22, ac ar gyfer y blaenoriaethau o fewn y flwyddyn a nodir ynddo.

Cynigiwyd diwygiad, a'i eilio, bod argymhelliad ychwanegol yn cael ei ychwanegu fel a ganlyn:

"Datblygu cynllun eglur o fewn y 12 mis nesaf ar ddatgarboneiddio, sy'n cefnogi gwaith y Cyngor ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i newid hinsawdd".

Cynigiodd yr Aelod Arweiniol argymhelliad ychwanegol arall fel a ganlyn:

"Bod y Cyngor yn cydnabod gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ac eraill fydd yn cefnogi Bargen Dwf Gogledd Cymru i ddarparu prosiectau carbon ar draws rhanbarth Gogledd Cymru".

Pleidleisiwyd ar y prif gynnig a-:

PENDERFYNWYD -

(i) Y bydd y Cyngor yn cymeradwyo Cynllun arfaethedig y Cyngor 2019-22 (Atodiad C adroddiad CE/03/19) a'r blaenoriaethau o fewn y flwyddyn y mae'n eu nodi.

(ii) Datblygu cynllun eglur o fewn y 12 mis nesaf ar ddatgarboneiddio, sy'n cefnogi gwaith y Cyngor ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i newid hinsawdd.

(iii) Gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ac eraill fydd yn cefnogi Bargen Dwf Gogledd Cymru i ddarparu prosiectau carbon ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Adolygu blaenoriaethau'r Cyngor a nodi amcanion lles y Cyngor fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

16 ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd Cadeirydd y Gweithgor Cyfansoddiad adroddiad COGC/14/19 yn caniatáu aelodau i ystyried mabwysiadu'r Cyfansoddiad diwygiedig.

PENDERFYNWYD – Mabwysiadu'r Cyfansoddiad diwygiedig ynghyd â'r diwygiadau pellach a amlinellir yn Atodiad 1 adroddiad COGC/14/19, a'r diwygiadau i'r cynllun dirprwyo a amlinellir yn Atodiad 2 adroddiad COGC/14/19.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Galluogi'r Cyngor i fabwysiadu Cyfansoddiad ar ffurf fwy syml, wedi'i seilio ar y model cenedlaethol diwygiedig.

17 CALENDR O GYFARFODYDD 2019/2020

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu, adroddiad COGC/17/19 yn ceisio cymeradwyaeth Aelodau ar Galendr o Gyfarfodydd 2019/20 y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, y pwyllgorau Craffu a'r pwyllgorau Sefydlog yn dilyn ymgynghoriad ag Aelodau.

PENDERFYNWYD -

(i) Cytuno ar y calendr blynyddol arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau Sefydlog yn 2019/20, gan gynnwys lle i Weithdai i'r Holl Aelodau a Datblygiad Aelodau, fel y nodir yn yr amserlen a atodwyd wrth

adroddiad COGC/17/19.

(ii) Y bydd y Pwyllgorau'n ystyried adolygu ac addasu eu hamseroedd cychwyn eu hunain, gan roi ystyriaeth ddyledus i sicrhau presenoldeb cymaint o Aelodau ag sy'n bosib yn y Pwyllgorau unigol, a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweddarlledu.

RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Cymeradwyo dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd 2019/20.

18 GWERTHUSIAD SAFLE: CYFLEUSTER GWAREDU DAEAREGOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu a'r Aelod Arweiniol Lle – yr Amgylchedd a Chludiant, adroddiad ar y cyd COGC/16/19 er mwyn ceisio barn Aelodau am y materion a godwyd yn fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gael gwared â gwastraff ymbelydrol yng Nghymru, a p'un ai yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dymuno ystyried sefydlu safle gwaredu daearegol o fewn y Fwrdeistref Sirol.

PENDERFYNWYD – Bod yr Aelodau'n cytuno na fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cefnogi cynnal cyfleuster gwaredu daearegol yn y Fwrdeistref Sirol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodi safbwynt y Cyngor yn glir cyn i unrhyw gymuned feddwl am gysylltu â'r Cyngor i geisio ei gefnogaeth wrth ystyried y posibilrwydd o gynnal cyfleuster gwaredu daearegol o fewn y fwrdeistref sirol.

Y Cynghorydd Robert Walsh
Maer